**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Mehefin 2012**

## YMESTYN Y CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH AR GYFER RÔL Y CLERC

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Ceisio cymeradwyaeth am yn ôl i ymestyn y cytundeb lefel gwasanaeth presennol ar gyfer darparu clerc, swyddog monitro, cyngor cyfansoddiadol a gwasanaethau eraill i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Gwybodaeth

2 Mae tri phrif ran i rôl y Clerc/Swyddog Monitro:-

2.1 Rôl statudol Swyddog Monitro dan adran 5 o Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (fel y'i diwygiwyd). Dyletswydd i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau'n gyfreithlon, sicrhau cyfreithlondeb a thegwch wrth wneud penderfyniadau, cefnogi'r Pwyllgor Safonau, ymdrin â materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant ar gyfer yr Aelodau ar hwnnw ac ar faterion moesegol.

2.2 Clerc i'r Awdurdod – sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu gweinyddu yn unol â'r statudau perthnasol, y rheoliadau a'r Cyfansoddiad, ac ymdrin â materion cyfreithiol a gweithdrefnol ar gyfer yr Awdurdod. Cadw'r Cyfansoddiad yn gyfoes ac yn berthnasol. Cyflawni'r materion sy'n cael eu cadw ar gyfer y Clerc, ac a ddarperir ar eu cyfer yn y Cyfansoddiad.

2.3 Trefniadau cyffredinol o ran Llywodraethu a Democratiaeth, gan gynnwys:
- y Cod Llywodraethu Corfforaethol
- ymgysylltu â'r Aelodau a Siarter yr Aelodau
- Cynllun Lwfansau'r Aelodau
- rolau unigryw, er enghraifft, y grŵp lleihau risg, craffu, a chymryd rhan yn y broses o benodi Prif Swyddogion.

**Diben y rôl**

3 Darperir ar gyfer y gwasanaethau hyn dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth pedair blynedd a gomisiynwyd ddiwethaf gan Gyngor Sir y Fflint am wasanaethau eu Prif Weithredwr, Colin Everett, a'i Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fel Dirprwy i gyflawni'r rôl hon. Daeth y cytundeb i ben ar 31ain Mawrth 2012.

4 Yn dilyn trafodaethau rhwng y Prif Swyddog Tân, y Trysorydd a'r Clerc, ystyrir mai doeth fyddai, ar ddechrau Awdurdod Tân ac Achub newydd, gael parhad yn y broses gynghori, ac adnewyddu'r cytundeb gyda Sir y Fflint hyd at 31ain Mawrth 2013. Mae hyn yn cyd-fynd â rheolau sefydlog cytundebau'r Awdurdod, sy'n caniatáu hyd at flwyddyn o estyniad.

5 Bydd ymestyn y cytundeb flwyddyn yn caniatáu amser i gynnal adolygiad o'r rôl cyn ystyried trefniadau pellach ar gyfer 2013 ymlaen.

**Argymhelliad**

6 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo am yn ôl ymestyn y trefniadau presennol ar gyfer rôl y Clerc am gyfnod pellach o flwyddyn.